Annwyl Riant/Warchodwr,

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi bod yr ysgol nawr yn defnyddio **Darllen Co.** Mae **Darllen Co.** yn llwyfan darllen Cymraeg ar gyfer ysgolion a theuluoedd yma yng Nghymru. Mae'n helpu i ddatblygu sgiliau darllen eich plentyn a hybu cariad at ddarllen yn yr ysgol, ac yn y cartref.

Mae'r llwyfan yn cynnwys nifer o lyfrau cyfoes a chyffrous gan awduron a darlunwyr gorau Cymru. Gyda phob llyfr mae llyfr llafar a chwis darllen i'r plant eu cwblhau er mwyn datblygu eu sgiliau darllen a deall. Yn ogystal â hynny, mae'r plant yn medru ennill bathodynnau darllen am eu hymdrech, olrhain eu hamser darllen a chwilio drwy'r llyfrau er mwyn darllen a gwrando er pleser. Mae athro/awes eich plentyn hefyd yn medru defnyddio'r wefan i weld sut hwyl mae eich plentyn yn ei chael arni.

Er mwyn mewngofnodi a dechrau darllen, ewch i darllenco.cymru. Mae'r llwyfan yn gweithio ar gyfrifiadur, gliniadur, tabled a ffôn.

Bydd eich plentyn yn dod â thaflen adref yr wythnos hon gyda chod QR arni. Wrth sganio'r cod hwn, byddwch yn cael mynediad i dudalen eich plentyn.

Mae Darllen Co. yn datblygu yn gyson ac yn ychwanegu mwy o lyfrau, adnoddau a nodweddion bob mis. Felly, cadwch lygaid ar y wefan yn gyson am unrhyw ddatblygiadau a fydd yn eich helpu chi i gefnogi eich plant gartref, boed chi'n siaradwr Cymraeg ai peidio.

Gobeithio byddwch chi a'ch plant yn mwynhau pori trwy'r llyfrau a'r adnoddau gyda'ch gilydd gartref.

**Darllen Co.**



Dear Parent or Guardian,

We are very pleased to share that the school now uses Darllen Co. Darllen Co. is a Welsh-language reading platform for schools and families in Wales that helps develop your child's reading skills and promotes a love of reading at school, and at home.

The platform includes a number of modern and exciting books by Wales' best authors and illustrators. The books come with an audiobook and a quiz for the children to complete in order to develop their reading and comprehension skills. In addition, the children can earn reading badges for their effort, track their reading time and search the books in order to read and listen for pleasure. Your child's teacher can also see how your child is doing on the website.

To log in and start reading, go to darllenco.cymru. The platform works on computer, laptop, tablet and phone.

Your child will be bringing home a leaflet this week with a QR code on it. By scanning this code, you will be able to access your child’s page.

Darllen Co. is constantly developing with more books, resources and features being added every month. Therefore, keep an eye on the website closely for any developments that will help you support your children at home, whether you are a Welsh speaker or not.

We really hope you and your children enjoy browsing through the books and resources together at home.

**Darllen Co.**

